

Penderfyniad

Asesiad Dyluniad Generig

Cam 1 BWRX-300 GE-Hitachi Nuclear Energy (Cychwyn): Datganiad

Yn berthnasol i Gymru a Lloegr

Cynnwys

1. Proses yr asesiad dyluniad generig
2. Amserlen arfaethedig
3. Cyflwyniadau GE-Hitachi

Mae'r datganiad hwn yn nodi canfyddiadau Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn dilyn ein gwaith yng Ngham 1 (cychwyn) yr asesiad dyluniad generig o ddyluniad gorsaf ynni niwclear adweithydd modiwlaid bach (SMR) BWRX-300 GE-Hitachi.

GE-Hitachi Nuclear Energy International LLC (Cangen y Deyrnas Unedig) yw'r ymgeisydd ar gyfer yr asesiad dyluniad generig, y cyfeirir ato wedyn fel GE-Hitachi neu'r ymgeisydd. GE Vernova, Inc. yw rhiant-gwmni olaf GE-Hitachi Nuclear Energy International LLC. Mae BWRX-300 GE-Hitachi yn adweithydd dŵr berwedig gydag allbwn trydanol o 300 megawat o drydan.

Mae'r rheoleiddwyr amgylcheddol – Asiantaeth yr Amgylchedd ac CNC – yn gweithio'n agos gyda'r Swyddfa Reoleiddio Niwclear ar asesiadau dyluniad generig.

1. Proses yr asesiad dyluniad generig

Yn yr asesiad dyluniad generig, mae'r rheoleiddwyr amgylcheddol yn asesu a yw agweddau amgylcheddol dyluniad gorsaf ynni niwclear newydd yn dderbyniol i'w defnyddio yn y Deyrnas Unedig. Gwnawn hyn cyn i unrhyw ddatblygwr wneud cais i adeiladu a gweithredu'r dyluniad ar safle penodol. Mae asesiad dyluniad generig yn galluogi'r rheoleiddwyr i gymryd rhan mewn cam cynnar yn y dyluniad pan allant gael y dylanwad mwyaf. Nid yw asesiad dyluniad generig yn ofyniad gorfodol ac mae'n dal yn ofynnol i ddarparu weithredwyr a datblygwyr wneud cais am bob caniatâd perthnasol ar gyfer eu safleoedd arfaethedig a chael yr holl ganiatadau hynny. Fodd bynnag, bydd cwblhau asesiad dyluniad generig yn helpu i ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer ceisiadau safle-benodol ac yn helpu i osgoi nodi pryderon a materion rheoleiddio yn ystod camau diweddarach prosiect, yn enwedig yn ystod y cyfnod adeiladu, pan fydd eu datrys yn gallu cael effaith sylweddol ar gostau prosiect ac amserlenni.

Yr amcanion ar gyfer Cam 1 yw i'r ymgeisydd a'r rheoleiddwyr amgylcheddol gytuno ar y canlynol:

- cwmpas yr asesiad dyluniad generig
- sut y bydd yr ymgeisydd yn dogfennu ei achos amgylcheddol ac yn ei gyflwyno i'w asesu yn ystod proses yr asesiad dyluniad generig
- sut y bydd yr ymgeisydd yn mynd i'r afael ag unrhyw fylchau o ran bodloni gofynion rheoleiddiol, y disgwyliadau y mae wedi'u nodi, a'i gynllun ar gyfer y gwaith hwn
- y trefniadau y mae'r ymgeisydd wedi'u rhoi ar waith i gyflawni'r asesiad dyluniad generig
- yr amserlen a'r rhaglen gysylltiedig ar gyfer camau dilynol, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer cyflwyniadau a datblygu gwefan yr ymgeisydd a'r broses sylwadau yn barod ar gyfer Cam 2 (asesiad sylfaenol)

Dechreuodd y rheoleiddwyr Gam 1 asesiad dyluniad generig BWRX-300 GE-Hitachi ym mis Ionawr 2024 a'i gwblhau o fewn 12 mis.

Ar ddiwedd Cam 1, rydym wedi dod i'r casgliadau canlynol:

- mae GE-Hitachi wedi cwblhau holl elfennau Cam 1 sydd eu hangen i fwrw ymlaen i Gam 2 yr asesiad dyluniad generig
- mae gan y rheoleiddwyr amgylcheddol a GE-Hitachi adnoddau digonol ar waith ac maent yn barod i fynd i Gam 2

Mae'r rheoleiddwyr amgylcheddol wedi penderfynu, yn dilyn eu hasesiadau a'u hadolygiad parodrwydd ac yn amodol ar gytundeb Bwrdd Rhaglen Adweithyddion Newydd Asiantaeth yr Amgylchedd, y gall Cam 2 ddechrau ganol mis Rhagfyr 2024.

Wrth ddod i'r casgliad hwn, mae'r rheoleiddwyr amgylcheddol wedi ymgysylltu'n helaeth â GE-Hitachi a'r Swyddfa Reoleiddio Niwclear i adolygu addasrwydd yr holl wybodaeth berthnasol a ddarparwyd yn ystod Cam 1.

Mae'r rheoleiddwyr wedi cytuno bod cwmpas yr asesiad dyluniad generig yn ddigonol. Gall GE-Hitachi ddarparu digon o wybodaeth a'r manylebau swyddogaethol ar gyfer y dyluniad fel y gallwn gynnal asesiad dyluniad generig dau gam ystyrlon.

Mae GE-Hitachi wedi cadarnhau ei fod yn ceisio cwblhau dau gam yr asesiad dyluniad generig, gan ddod â'r broses i ben gyda datganiad Cam 2 gan y rheoleiddwyr amgylcheddol.

2. Amserlen arfaethedig

I ddechrau, y bwriad oedd y byddai asesiad dyluniad generig y BWRX-300 yn parhau am 22 mis. Dechreuodd Cam 1 (cychwyn) ym mis Ionawr 2024 a chafodd ei gwblhau ynghanol mis Rhagfyr 2024.

Bydd Cam 2 (asesiad sylfaenol) yn dechrau ym mis Rhagfyr 2024. Mae dyddiad gorffen Cam 2 wedi'i dargedu ar gyfer mis Rhagfyr 2025.

3. Cyflwyniadau GE-Hitachi

Disgwylir i'r cyflwyniadau gan GE-Hitachi fynd i'r afael yn ddigonol â'r holl ofynion gwybodaeth a nodir yn ein [canllawiau ar gyfer ymgeiswyr](#) ar gyfer Cam 1. Mae hyn hefyd yn cynnwys trefniant prosiect perthnasol fel y'i diffinnir yng [nghanllaw'r Swyddfa Reoleiddio Niwclear i ymgeiswyr](#).

Mae GE-Hitachi wedi darparu dogfen cwmpas asesiad dyluniad generig a dogfen strategaeth amgylcheddol, sydd gyda'i gilydd yn diffinio cwmpas amgylcheddol a chyflwyniadau ar gyfer yr asesiad dyluniad generig. Bydd y rheoleiddwyr amgylcheddol yn asesu'r cyflwyniadau hyn yn ystod Cam 2. Rydym wedi trafod y cynlluniau hyn gyda GE-Hitachi, ac rydym o'r farn eu bod yn ddigonol i ni gynnal asesiad ystyrlon. Mae GE-Hitachi wedi cyflwyno adroddiad gwirio dyluniad, sy'n disgrifio'r dyluniad y byddwn yn ei asesu. Mae hwn yn cyd-fynd â chwmpas cytunedig yr asesiad dyluniad generig.

Rydym wedi cytuno ar yr amserlen gyflwyno ar gyfer Cam 2. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai'r cynlluniau hyn newid. Bydd y rheoleiddwyr yn parhau i drafod amserlen cyflwyniadau Cam 2 gyda GE-Hitachi trwy gydol Cam 2. Mae GE-Hitachi wedi gosod strwythur derbyniol ar gyfer y cyflwyniadau sy'n rhan o'r achos

amgylcheddol. Mae hyn wedi'i sefydlu trwy drafodaethau technegol rhwng arbenigwyr ar draws yr holl bynciau.

Mae trefniadau rhyngwyneb ar waith sy'n nodi sut y bydd GE-Hitachi yn cyflwyno gwybodaeth a sut y bydd y rheoleiddwyr yn ei holrhain.

Mae'r trefniadau rhyngwyneb hefyd yn ymdrin â threfniadau prosiect mwy cyffredinol, a sut y bydd ymholiadau rheoleiddiol, arsylwadau rheoleiddiol a materion rheoleiddiol yn cael eu codi a'u holrhain.

Mae GE-Hitachi wedi nodi sut y bydd yn rheoli'r broses sylwadau cyhoeddus ac yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd ar wefan yn ystod Cam 2. Rydym wedi cytuno bod y trefniadau hyn yn addas ac y byddant yn barod ar gyfer dechrau Cam 2.

Yn ein hadroddiad, Asesiad Dyluniad Generig – Cam 1 (Cychwyn) BWRX-300 GE-Hitachi: Adroddiad cryno, rydym yn nodi'n fanylach y gweithgareddau sydd wedi digwydd yn ystod Cam 1 a barn y rheoleiddwyr ar bynciau perthnasol.